Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Rheoliadau Cynhyrchion Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019**
DYDDIAD	**16 Hydref 2019**
GAN	**Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**

Rheoliadau Cynhyrchion Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

Y gyfraith sy'n cael ei diwygio

Deddfwriaeth Ddomestig

- Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) 2009
- Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Gogledd Iwerddon) 2015
- Rheoliadau Bwyd a Ffermio (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau'r Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Deddfwriaeth yr UE

- Rheoliad (EC) Rhif 110/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor
- Rheoliad gan y Comisiwn (EC) rhif 606/2009
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 664/2014
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 668/2014
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2018/273
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2018/274
- Rheoliad (EU) 2018/1670 Senedd Ewrop a'r Cyngor
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/33
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2019/34
- Rheoliad (EU) 2019/787 Senedd Ewrop a'r Cyngor

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Er nad yw'r Rheoliadau hyn yn gwneud ond newidiadau bach i Offerynnau Statudol y mae Gweinidogion Cymru eisoes wedi cydsynio iddynt, yn bennaf o ganlyniad i Reoliad (EU) 2019/787 yn dod i rym ym mis Mai 2019, maent yn ymwneud â maes cymhwysedd

y mae anghydfod yn ei gylch. Yn ein barn ni, bydd trosglwyddo swyddogaethau mewn perthynas â Chynlluniau Dynodiad Daearyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol yn ddilyffethair yn cael effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru. Nid yw Llywodraeth y DU yn cydnabod hyn. Maent yn credu bod cynlluniau o'r fath yn dod o dan faterion a gedwir yn ôl.

O ganlyniad, er bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn yn flaenorol am swyddogaethau penderfynu ar y cyd o fewn yr offeryn hwn mewn perthynas â chymeradwyo enwau bwyd a dynodiadau daearyddol, mae Llywodraeth y DU wedi glynu wrth ei barn bod y rhain yn faterion a gedwir yn ôl.

Fodd bynnag, mewn llythyrau rhwng Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a'r Ysgrifennydd Gwladol, cafwyd addewidion ysgrifenedig y bydd gan yr holl Weinyddiaethau Datganoledig ran yn y gwaith o weithredu'r cynllun newydd. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio i sicrhau bod y trefniadau a fydd yn sylfaen i'r offeryn yn rhoi rôl glir i Weinidogion Cymru yn y broses o weinyddu'r cynllun.

Lle mae swyddogaeth wedi cael ei throsglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, bydd y swyddogaeth hon yn swyddogaeth un o Weinidogion y Goron at ddibenion paragraff 11(2) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n cyfyngu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i ddileu neu addasu swyddogaethau o'r fath heb ymgynghori â'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth y DU. Mae hyn yn golygu pe bai'r Cynulliad yn cyflwyno Bil yn y dyfodol i geisio dileu neu addasu'r swyddogaeth hon, gallai hyn sbarduno gofyniad i ymgynghori, ond ni fyddai'n ofynnol cael cydsyniad gan Lywodraeth y DU cyn ei haddasu.

Diben y diwygiadau
Mae'r offeryn yn darparu ar gyfer gweinyddu a gorfodi dynodiadau daearyddol domestig y DU, a fydd yn darparu gwarchodaeth gyfreithiol rhag nwyddau ffug ar gyfer yr holl gynhyrchion sy'n cael eu cydnabod gan y cynlluniau. Mae'r offeryn hefyd yn creu rheoliadau y gellir eu gweithredu yn y DU i weinyddu ac i orfodi safonau'r sector gwin a gwirodydd ar gyfer diffinio, disgrifio, cyflwyno a labelu.

Dynodiadau daearyddol
Ar hyn o bryd mae Rheoliadau'r UE yn darparu ar gyfer cofrestru a gwarchod dynodiadau daearyddol yn y DU. Mae'r rhain yn cynnwys i) cynhyrchion amaethyddol a bwydydd ii) gwin iii) gwirodydd a iv) gwin sawrus.

Mae 16 o gynhyrchion bwyd o Gymru sydd wedi cael eu cofrestru o dan y Cynllun Ewropeaidd, gan gynnwys cig oen Cymreig a chig eidion Cymreig. Mae dynodiad daearyddol yn ddyfarniad pwysig gan ei fod yn cael ei ystyried yn farc o ansawdd sy'n rhoi budd economaidd gwell i gynhyrchwyr am eu cynnyrch. Mae'r cynlluniau'n darparu gwarchodaeth gyfreithiol rhag nwyddau ffug ar gyfer cynhyrchion arbennig rhanbarthol a thraddodiadol y gellir gwarantu eu dilysrwydd a'u tarddiad. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i brynwyr fod y cynhyrchion yn ddilys ac yn galluogi cynhyrchwyr i hyrwyddo a marchnata eu cynhyrchion yn well.

Hefyd mae Rheoliadau'r UE wedi llywodraethu'r rheoliadau ar gyfer diffinio, disgrifio, cyflwyno a labelu gwirodydd, yn ogystal â'r rheolau ar gyfer diffinio, disgrifio, cyflwyno a labelu gwin a gwin sawrus – ynghyd a'r rheolau gwinyddiaeth.

Wrth i'r DU ymadael â'r UE, mae'n hanfodol bod rheolau ar waith i barhau i warchod y cynhyrchion hyn yn yr un modd â Rheoliadau'r UE hyn. O dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, bydd Rheoliadau perthnasol yr UE yn cael eu hymgorffori yng Nghyfraith y DU. Mae'r offeryn hwn yn diwygio'r rheoliadau hynny (a rheoliadau domestig sydd eisoes yn bodoli) ar gynlluniau dynodiad daearyddol a'r sectorau gwin a gwirodydd. Bydd y diwygiadau a wneir gan yr offeryn hwn yn creu cynlluniau dynodiad daearyddol sy'n weithredol yn y DU, a rheoliadau domestig y gellir eu gorfodi gan y DU ar gyfer y sectorau bwyd a diod. Bydd hyn yn sicrhau bod y DU yn parhau i warchod yr 86 o enwau cynnyrch o'r DU sydd â statws Dynodiad Daearyddol o dan gynlluniau'r UE, a'i bod yn parhau i fodloni ei rhwymedigaethau i Sefydliad Masnach y Byd.

Mae'r diwygiadau a wneir gan yr offeryn hwn yn gwneud nifer o gywiriadau, er enghraifft:

1) Bydd y cynlluniau dynodiad daearyddol yn cael eu gweinyddu fel cynlluniau'r DU, nid fel cynlluniau Ewropeaidd. Bydd pob cais am statws dynodiad daearyddol yn y DU yn mynd drwy broses craffu a gwrthwynebu sengl, yn hytrach na'r broses dau gam bresennol (bydd camau'r Aelod-wladwriaeth a'r Comisiwn Ewropeaidd sydd ar waith ar hyn o bryd yn cael eu cyfuno yn un broses wedi ei haddasu ar gyfer cynllun y DU);
2) Mae darpariaethau ar gyfer apeliadau'n cael eu cyflwyno o ganlyniad i'r DU yn ymgymryd â chyfrifoldebau a swyddogaethau newydd – cyfrifoldebau a swyddogaethau yr oedd yr UE yn eu cyflawni gynt. Mae'r rhain yn caniatáu i'r rhai sydd â buddiannau cyfreithiol apelio at Dribiwnlys yr Haen Gyntaf os ydynt yn anghytuno â'r penderfyniadau a wnaed wrth i'r cynllun gael ei weinyddu; ac
3) Mae'r offeryn yn paratoi'r ffordd ar gyfer creu logos dynodiad daearyddol newydd ar gyfer y DU, gan roi tair blynedd i fusnesau bwyd amaeth yn y DU sydd â statws dynodiad daearyddol gydymffurfio â'r gofyniad i ddefnyddio logo newydd y DU pan fyddant yn masnachu ar farchnad y DU.

Gwneir yr offeryn hwn gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 er mwyn mynd i'r afael â meysydd lle nad yw cyfraith yr UE a gedwir yn ôl yn gweithredu'n effeithiol neu wendidau eraill sy'n deillio o'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Gwneir yr offeryn hefyd o dan y pwerau ym mharagraff 1 o Atodlen 4 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/95VyiSCG

Cydsyniad

Bu rhaid i Weinidogion Cymru bwyso a mesur yn llawn bwysigrwydd glynu wrth farn Llywodraeth Cymru am gymhwysedd yn erbyn pwysigrwydd ymarferol sicrhau bod yr 16 o ddynodiadau daearyddol yng Nghymru yn cael eu gwarchod os yw'r DU yn gadael y

UE. Nid oes gwahaniaeth yn y polisi sylfaenol ac mae angen y diwygiadau hyn i sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU adael yr UE.

Rydym yn awyddus iawn i sicrhau bod dynodiadau daearyddol Cymru yn cael eu gwarchod ledled y DU (ac yn ddelfrydol, drwy'r trafodaethau am ein partneriaeth ag ef yn y dyfodol, yn yr UE). Er bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod y materion hyn yn rhai sydd wedi'u datganoli, mae Llywodraeth y DU yn credu eu bod yn faterion a gedwir yn ôl, ac o'i safbwynt hi felly, nid ydynt yn dod o dan delerau'r Cytundeb Rhynglywodraethol. Ni fu'n bosibl datrys y materion hyn yn yr amser sydd ei angen i sicrhau bod gennym lyfr statud sy'n gweithio.

Nid ydym wedi llwyddo i sicrhau swyddogaethau penderfynu ar y cyd ar gyfer Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chymeradwyo enwau bwyd a dynodiadau daearyddol. Fodd bynnag, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi sicrwydd ysgrifenedig y bydd gan bob Gweinyddiaeth Ddatganoledig rôl glir yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r cynllun newydd. Felly, rhoddwyd cydsyniad ar yr amod bod trefniadau boddhaol ar gyfer y cynllun yn cael eu sefydlu a fydd yn cyflawni'r ymrwymiad hwn, ac nad effeithir ar ein sefyllfa o ran cymhwysedd deddfwriaethol.